



Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cyf Cylchlythyr Milfeddygol

Mai 2024



Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol NEWYDD

Fel y gwyddoch, mae'r adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol Newydd wedi bod yn fyw ar Borth Milfeddygol WLBP ers mis Tachwedd 2023.

Mae'r nodweddion NEWYDD yn cynnwys:

- Cadw'n awtomatig
- Opsiynau golygu ar gyfer blychau testun
- Atodi Cyfrifiadau Defnydd Gwrthficrobaidd (AMU) cyfredol sydd wedi'u cwblhau yn awtomatig
- Y gallu i atodi dogfennau ategol i'r adolygiad
- Adrannau newydd gyda chwestiynau penodol ar gyfer rhywogaethau penodol
- Os ydych chi'n rhedeg fferm Laeth, mae adrannau i boblogi PDF Adolygiad Iechyd a Pherfformiad Cynllun y Tractor Coch

Annual Livestock Health and Welfare Review

Annual review of information provided from the Farmer Health Plan, Biosecurity and Medicine and Veterinary records

Date of Review 22/11/2023

18/09/2023 11:28:09

AMU Report

AMU Calculation
AMU Calculation Completed / selected for 2022

What species are present on this farm

Sheep
Beef
Dairy

If more than one practice is retained by the farm, this review must include all medicines prescribed/used

Mae'n hanfodol bod cyfrifiad AMU yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno cyn i chi ddechrau'r adolygiad Iechyd a Lles.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gwblhau Cyfrifiad AMU neu Adolygiad, cysylltwch â ni ar healthplan@wlbp.co.uk neu 01970 636688.

Methiannau Gwrthfotig Cynllun y Tractor Coch

Os oes gan eich cleient fethiant gwrthfotig ar gynllun y Tractor Coch, bydd angen iddo roi gwybod am y methiant i chi o fewn 7 diwrnod. O dan safonau cynllun y Tractor Coch, mae'n rhaid i'r milfeddyg anfon cadarnhad bod y methiant wedi cael ei adrodd.


Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol o'i gymharu â Chynllun Iechyd Fferm

- Mae'r cynllun Iechyd yn gallu cael ei gwblhau gan y ffermwr neu'r milfeddyg.
- Rhaid i'r Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol gael ei gwblhau gan filfeddyg.

CYFARFODYDD MILFEDDYGOL AR-LEIN

Ymunwch â ni ar y dyddiadau canlynol ar gyfer ein Cyfarfodydd Milfeddygol Ar-lein WLBP.

Tynnu sylw at ganlyniadau Cyfrifiannell AMU 2021 a 2022:



- ◇ Dydd Llun 3 Mehefin @ 5:30pm
- ◇ Dydd Llun 10 Mehefin @ 5:30pm
- ◇ Dydd Mercher 12 Mehefin @ 2pm



Os hoffech chi ymuno â chyfarfod, e-bostiwch healthplan@wlbp.co.uk

Adroddiadau AMU WLBP

Rydym yn falch o rannu Adroddiadau Defnydd Gwrthficrobaidd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru ar gyfer 2021 a 2022 gyda chi. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu dadansoddiad manwl o ddefnydd gwrthficrobaidd (AMU) yn y sectorau cig eidion, defaid a llaeth ledled Cymru. Cliciwch ar y dolenni isod i ddarganfod mwy:



SCAN ME

[Adroddiad AMU 2021](#)

[Adroddiad AMU 2022](#)



SCAN ME



Pam mai dim ond mamogiaid bridio sy'n cael eu defnyddio wrth gyfrifo cyfanswm y defaid? Beth am hyrddod?

Rydym yn cydnabod y bydd hyrddod ar y fferm ac y bydd gwrthfotigau yn cael eu defnyddio yn yr hyrddod hyn. Mae'n bwysig iawn cynnwys yr holl wrthfotigau sy'n cael eu defnyddio yn y ddiadell yn y cyfrifiad. Fodd bynnag, dim ond nifer y mamogiaid bridio sy'n cael eu cynnwys yn y cyfrifiad i gadw pethau'n syml.

Dilynwch y dolenni isod i gael mwy o wybodaeth:

[Sheep AMU Metric Document](#)

[CHAWG AMU Beef Benchmarking Metrics Report](#)

[CHAWG AMU Dairy Benchmarking Metrics Report](#)

Sut mae buchod godro llawndwf yn cael eu diffinio?

Mae buchod godro llawndwf yn cael eu diffinio fel anifeiliaid brid llaeth benywaidd 2 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n llaetha, y rhai yn y cyfnod sych neu hen fuchod.

Pam yr argymhellir cael cyfnod meincnodi o 12 mis yn seiliedig ar flwyddyn galendr?

Mae cyfnod o 12 mis yn seiliedig ar flwyddyn galendr yn cael ei ddefnyddio fel y safon yn y diwydiant defaid i ganiatáu ar gyfer amrywiadau tymhorol mewn defnydd o fewn blwyddyn. Mae wedi cael ei argymhell er mwyn caniatáu cymharu ar draws systemau waeth beth fo'r dyddiadau wyna.

New Veterinary Medicines Regulations are coming into force on 17 May 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae newidiadau ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) penodol y gallai fod gan y sector gwartheg ddiddordeb arbennig ynddynt yn cynnwys:

- Cyfyngiadau ar y defnydd arferol o wrthfotigau mewn anifeiliaid. Mae therapi cyffredinol i fuchod sych (rhoi gwrthfotigau wrth sychu heb asesiad risg unigol) yn cael ei ystyried yn ddefnydd arferol.
- Cyfyngiadau ar weinyddu gwrthfotigau sy'n cael eu rhoi trwy lwybr gweinyddu grŵp (er enghraifft, mewn llaeth/llaeth powdr) i fwy nag un anifail ar yr un pryd.

Mae'r darpariaethau uchod yn ddarostyngedig i rwymedigaethau proffesiynol milfeddyg i sicrhau iechyd a lles yr anifeiliaid o dan eu gofal.

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad i helpu i ddehongli'r newidiadau hyn ar wefan [VMD Information Hub - GOV.UK \(\[www.gov.uk\]\(http://www.gov.uk\)\)](#).

Dryswch ynghylch y Cynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL), Ardystiadau Milfeddygol a Chanllawiau RCVS

Yn ddiweddar, mae WLBP wedi cael gwybod am amgylchiadau lle bu dryswch ynghylch gofynion y Cynllun Gwarant Fferm Da Byw, Ardystiadau Milfeddygol a Chanllawiau RCVS.

Mae'r gofyniad i ymweld â ffermydd fel rhan o ragnodi meddyginiaethau milfeddygol presgripsiwn yn unig (POM-V) yn ofyniad RCVS (fel sydd i'w weld yn y canllawiau diweddaraf, gweler y blwch testun).

Mae'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw yn cael ei nodi fel cynllun cymhwyso at ddibenion ardystio allforio.

Felly mae aelodau'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw wedi'u heithrio rhag cwblhau'r Broses Ardystio Milfeddygol. Ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid i aelodau'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw nodi a yw milfeddyg wedi ymweld â'r fferm yn y 12 mis diwethaf.

RCVS - 'Dan ofal' - canllawiau newydd

Cliciwch y ddolen ganlynol i weld y 5 newid allweddol:

'Under care' - new guidance - Professionals
(rcvs.org.uk)

Manylion cyswllt

Ffôn: 01970 636688

Gwefan: www.farmrecords.wlbp.co.uk

Grace Rees-Jones

E-bost: gracerj@wlbp.co.uk

Ffôn Symudol: 0777695044

Llŷr Lewis

E-bost: llyrl@wlbp.co.uk

Ffôn Symudol: 07741549270